# Cronfa Goffa Thomas Ellis

*Codwyd y gronfa drwy danysgrifiadau cyhoeddus ac fe'i trosglwyddwyd i Brifysgol Cymru er mwyn iddi weithredu fel Ymddiriedolwyr gyda'r amcan o beri cofio enw y diweddar Thomas Edward Ellis MA, Warden Urdd y Graddedigion (1896-1899), ac Aelod Seneddol dros etholaeth Meirionnydd o 1886 hyd 1899.*

1. Defnyddir llog blynyddol y Gronfa i roddi grantiau at hyrwyddo gwaith ymchwil ynglŷn â'r iaith Gymraeg, llenyddiaeth Gymraeg, a hanes a hynafiaethau Cymru a Mynwy, a'r gwaith o gyhoeddi ffrwyth yr ymchwiliadau hynny.
2. Y mae hawl gan y rhai sydd wrthi'n ymchwilio yn y meysydd hynny anfon cais at UWRET ar y ffurflenni sydd wedi eu darparu at hynny, a disgwylir iddynt ddywedyd beth yw pwnc eu hymchwil a pha swm sy'n ofynnol[1] ar gyfer yr ymchwilio neu i dalu'r draul am argraffu ffrwyth yr ymchwil. Disgwylir iddynt roddi tystiolaeth hefyd ynglŷn â'u cymeriad, eu gallu, a'u cymwysterau at waith ymchwil.
3. I aelodau o Brifysgol yng Nghymru yn bennaf y rhoddir grantiau ond nis cyfyngir o angenrheidrwydd i aelodau.
4. Disgwylir i'r rhai a dderbynia gymorth ariannol ar gyfer cyhoeddi unrhyw waith gydnabod yn y gwaith hwnnw iddynt dderbyn cymorth gan UWRET a Chronfa Goffa Thomas Ellis.
5. Anfoner ceisiadau at UWRET, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS, erbyn 1 Mehefin.[2]

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achrededig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Mewn rhai blynyddoedd gellir estyn y dyddiad cau